

Camdriniaeth Pobl Hŷn



Yn hanesyddol mae ymdriniaethau cysylltiedig â chamdriniaeth ddomestig wedi canolbwyntio'n bennaf ar drais partneriaid. Yn fwy diweddar mae cam-drin teuluol a rhyng-genhedlaeth wedi'i gydnabod, yn benodol sut y mae'n wahanol i gam-drin domestig o fathau eraill.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn dweud bod rhyddid rhag camdriniaeth ac esgeulustod yn hanfodol bwysig i les unigolyn.

Mae trais domestig yn gategori cydnabyddedig o gamdriniaeth sy'n effeithio ar bobl hŷn ([Gweithdrefnau Diogelu Cymru](#))

Yn ôl y Cyngor Cenedlaethol ar Heneiddio (NCOA), mae pobl hŷn yn fwy tebygol o wneud adroddiadau o ecsbloetiaeth ariannol nag o gamdriniaeth neu esgeulustod emosiynol, corfforol neu rywiol. Yn ôl NCEA esgeulustod yw'r math mwyaf cyffredin o gamdriniaeth pobl hŷn.

Gall rhieni a pherthnasau eraill ddioddef camdriniaeth gorfforol a rhywiol drwy law oedolion a phobl ifanc.

Oedolion iau sydd gan amlaf yn cyflawni camdriniaeth ariannol.

Gall arwyddion a symptomau camdriniaeth oedolion gynnwys:

- Anafiadau fel cleisiau, toriadau ar y croen neu esgryn wedi torri.
- Arwyddion o ddiffyg maeth neu golli pwysau
- Hylendid gwael
- Gorbryder, iselder neu ddryswch
- Trafodion ariannol neu golli arian heb eglurhad
- Cilio rhag teulu a ffrindiau

Gall camdriniaeth mewn perthnasoedd agos fod yn:

- Gamdriniaeth sydd wedi digwydd i rywun erioed ac sy'n dal i ddigwydd rŵan eu bod nhw mewn oed
- Camdriniaeth ddiweddar – yn digwydd mewn perthnasoedd newydd

Ystyriwch effaith camdriniaeth ar bobl gydag anghenion gofal a chymorth ychwanegol. Mae'n bosibl na fydd gan rai dioddefwyr camdriniaeth ddomestig y gallu i wneud rhai penderfyniadau drostynt eu hunain neu hyd yn oed i adnabod y gamdriniaeth.

Gofalwch bod unrhyw niwed uniongyrchol yn cael ei reoli a

pheidiwch â gwneud rhagdybiaethau am anghenion yr unigolyn.

Rhowch gyfleoedd i ddatgelu, trafod cynlluniau diogelwch ac annog gofalwr i geisio cymorth

Os oes peryglon uniongyrchol cysylltwch â'r Heddlu

Lansiwyd yr ymgyrch 'Ddylai neb deimlo'n ofnus gartre' yn ystod y pandemig coronafeirws i roi gwybod i'r rhai sydd mewn perygl bod help yn dal ar gael, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos drwy 'Byw Heb Ofn'



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email

Trefniadau Diogelu Cymru
Wales Safeguarding Procedures

<https://www.bwrddiogelugogleddcymru.cymru/>